Sblot Parth Diogelwch Ysgol Glan Morfa, Lewis Road

Adroddiad Ymgynghori

Rhif y Project: CO17077

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 12/01/2018 a 26/01/2018.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol os yn bosibl.

O'r 68 eiddo, a'r 4 hysbysiad safle a godwyd ar y safle, cafwyd 2 ymateb. Roedd y ddau ymateb yma yn gofyn am wybodaeth bellach ynghylch y cynigion ac nid oeddent yn cytuno nac anghytuno â'r cynigion.

Crynhoir y gofidiau a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad
O ystyried yr isod, cynigir bwrw ymlaen gyda'r cynllun, fel y nodir yn y cynllun ymgynghori.

Mater – pryder ynghylch cyflawni gwaith yn effeithio ar fynediad busnes
Perchennog busnes wedi gwneud cais "*Sut bydd hyn yn effeithio ar y fynedfa, man croesi o'r ffordd i'n iard ni a mynediad i loriau HGV?"*

"Pa gynigion sydd yna i ganiatáu mynediad parhaus i'n eiddo ni yn ystod oriau gwaith?"

Yn dilyn ymholiadau pellach, canfuwyd bod y man croesi concrid presennol o'r ffordd at safle'r busnes mewn cyflwr da ac na fydd angen ei adnewyddu. O ganlyniad, ni fydd unrhyw waith yn digwydd ar y fynedfa, ac fe gaiff mynediad i gerbydau ei gynnal.

Fel gyda phob gwaith adeiladu, mae'n debyg y bydd rhywfaint o amharu yn ystod y cyfnod hwn, fodd bynnag byddwn yn ymdrechu i gyfyngu cymaint ag y bo modd ar hyn a chydgysylltu â busnesau lleol a phreswylwyr gaiff eu heffeithio er mwyn sicrhau fod mynediad yn cael ei gynnal.

Mater - amserlen
Holodd perchennog busnes " *Pryd bydd y gwaith yn digwydd?"*

Disgwylir i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo yn ystod haf 2018.

Mater – tynnu'r culhau sy'n rhoi blaenoriaeth
Holodd perchennog busnes "*Eglurwch hefyd a chynghorwch ar effaith traffig dwyffordd parhaus ar y ffordd i gerbydau yn mynd a dod o'n safle ni yn ddiogel. Ar*

hyn o bryd, caiff y traffig sy'n mynd i'r ddau gyfeiriad ei arafu gan drefniant y croesfan sebra unffordd yn unig."

Caiff y culhau presennol sy'n rhoi blaenoriaeth ei dynnu oddi yno a'i ddisodli gan fwrdd arafu sy'n caniatáu llif traffig i'r ddau gyfeiriad, a chaiff cyfleuster y groesfan sebra ei chadw. Bydd hyn yn golygu y bydd cerbydau sy'n teithio drwy'r lleoliad hwn yn gwneud hynny mewn modd graddol ac arafach, a dileu'r duedd i gerbydau 'rasio' trwy'r culhau sy'n rhoi blaenoriaeth er mwyn 'curo' y traffig sy'n teithio o'r cyfeiriad arall.

Mater – cynigion troedffordd

Holodd perchennog busnes "*Eglurwch beth yw eich cynigion ar gyfer gwella'r droedffordd i gerddwyr ar hyd ein mynedfa."*

Bydd mur cynnal yn cael ei godi yng nghefn y droedffordd bresennol yn y lleoliad hwn (h.y. ar y droedffordd ogleddol lle mae'r groesfan sebra presennol lle mae'r ffordd yn culhau). Bydd hyn yn galluogi'r droedffordd newydd i gael ei chodi heb y trefniant man croesi presennol. Bydd creu troedffordd wastad yn gwella mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd ayb.

Mater – cyffordd Dwyrain Stryd Tyndall

"Bydd y culhau hyn yn cyfyngu ymhellach ar y ciwiau traffig 5pm presennol sy'n troi i'r dde i Ddwyrain Stryd Tyndall (i gyfeiriad Sblot). Mae'r ciw o geir sy'n troi i'r dde eisoes yn atal y traffig sy'n dilyn Dwyrain Stryd Tyndall tua'r gylchfan hud a'r canlyniad yw traffig sy'n ciwio ar hyd Lewis Road ar yr oriau brig (yr holl ffordd heibio i safle'r ysgol newydd).

Caiff Lewis Road ei gulhau i 6.1m ar y groesfan sebra newydd i'r de o'r gyffordd gyda Dwyrain Stryd Tyndall, mae hyn yn ddigon o led i ganiatáu llif traffig i'r ddau gyfeiriad. Ar hyn o bryd, mae cerbydau yn parcio ar y tu mewn y tro yn y lleoliad hwn sy'n cyfyngu ar allu cerbydau i symud o Lewis Road i Ddwyrain Stryd Tyndall (tua'r gylchfan hud). Caiff cyfyngiadau parcio eu cyflwyno er mwyn atal hyn rhag digwydd gyda'r drefn ffordd newydd, a bydd rhain yn destun proses Gorchymyn Rheoli Traffig ar wahân.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/ This document is available in English.